

CYNGOR BRO LLANGELER-24:02:2014

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Chwefror 24ain 2014 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **02/14 PRESENNOL:** Cyng. John Crossley[Cadeirydd], Jamie Ayres, Ian Davies, Brenda Jones, Christopher Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Adrian Thomas. John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng.Sir - K Howell, PCSO J Kedward
2. **02/14 HEDDLU:** nododd PCSO J Kedward bod tresbaswyr wedi bod yn Neuadd y Ddraig Goch a bod yr heddlu wedi delio a nhw. Roedd yr heddlu wedi cael rhif y car car glas sydd wedi bod yn gor yrru drwy'r pentref yn rheolaidd a'i bod wedi rhoi rhybudd i'r gyrrwr, nid yw wedi ei ddal yn gor yrru ers hynny.
3. **02/14 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Delyth Evans, Marc Rees, Caroline Roberts, Dilwyn Smith,
4. **02/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Ionawr 27ain 2014 a'u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. A Thomas
Eilydd – Cyng. C Jones
5. **02/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim
6. **02/14 MATERION YN CODI :**
 - 6.i.09/13 – Toiledau Parc Puw – diweddariad – heb glywed dim o'r Cyngor Sir
 - 11.i.06/13 – Graffiti ar yr arosfan bws – dal heb ei lanhau
 - 11.iii.c)06/13 – palmant Rhos – llythyr wrth John McEvoy yn dweud bod ein cais i ostwng y cyflymdra o 40mya i 30 mya wedi ei gyfeirio at 'Carmarthenshire Speed Limit Working Group'. Ar rhan cais y Cyngor am gludiant i'r plant ar y bws ysgol sydd yn bwydo'r ysgol ar hyn o bryd credir na ellir gwneud eithriadau gan byddai hyn yn achosi problemau enfawr drwy'r Sir.
 6. xxviii. 01/14 – Website Grant – o ran pris tendro barn y mwyafrif oedd i fynd am Solutions Factory Llandysul – gofynnwyd i gynghorwyr edrych ar yr hyn fydd ar y wefan ac i fynegu barn i'r Clerc fel bod newidiadau yn medru cael eu gwneud fel bo angen.
 - 12.i.01/14 a) coeden wedi dod lawr – Clerc wedi rhoi gwybod i goedwigwr y Sir
b) 'Audio Trail' - gwaith yn mynd yn ei flaen
 - 12.v.01/14 a) reilen llaw wedi torri - wedi rhoi gwybod i'r warden
b) Mesurydd Traffig – cynrychiolydd o'r Cyngor Sir wedi bod allan a chael cyfarfod gyda'r Clerc ynghylch cael bocsys mesur Trafnidiaeth yn y pentref a lle i'w lleoli
 - 12.vi01/14 – arwynebedd yr hewl ym Mhentreagal – y gwaith atgyweirio wedi ei gwblhau
7. **02/14 GOHEBIAETH:**
 - i. Kidney Wales Foundation – 'Walk for Life' - *nodwyd*
 - ii. Simon Charles CSG – e-bost yn dweud ei fod wedi anfon y llythyr am awgrymiadau ynghylch palmant rhos ymlaen i'r Adran Drafndiaeth a Chludiant Ysgolion
 - iii. CSG – Trosglwyddo Asedau Chwaraeon – Pecyn Gwybodaeth - *nodwyd*
 - iv. Cylchgrawn - Y Llais
 - v. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *nodwyd*
 - vi. e-bost – CSG - E-wyrddgrawn – *nodwyd*
 - vii. e-bost – ULIC – Cyfleoedd Penodiadau Cyhoeddus - *nodwyd*
 - viii. e-bost – ULIC – Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol - Ionawr 2014 - *nodwyd*
 - ix. e-bost – ULIC - Bwletin Tai i Gymru Ionawr 2014 – *nodwyd*
 - x. e-bost – CSG – J McEvoy – ateb i llythyr am awgrymiadau ynghylch palmant oddiwrth Adran Drafndiaeth a Chludiant Ysgolion wedi ei drafod o dan Materion yn Codi o'r Cofnodion eitem 11.iii c).06/12
 - xi. e-bost – ULIC – Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 – *nodwyd*
 - xii. e-bost – ULIC – Rhaglen Hyfforddiant Chwefror i Gorffennaf 2014 – *nodwyd*
 - xiii. e-bost – ULIC - Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu i Gymru 2012-2013 – *nodwyd*

8. 02/14 CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI

Caniatâd

W/29323 – Mr Tom Jones, Gorlan Farm, Pant y Bwlch SA38 9JE – adeilad arfaethedig newydd amaethyddol ar gyfer ciwbicll lletya gwartheg

Cais Ymgynghori llawn

W/29008 – Mr&Mrs W Morgan, 28 Ger y Llan, Velindre – adeiladu estyniad i ochr yr adeilad a newid deunydd o'r tir wrth ochr yr adeilad i safle parcio ddomestig – *dim barn*

W/29552 – Mr Raymond Jones, Tir cyfagos i Cefn-Isaf, Saron SA44 5DX – dau blot arfaethedig ynghyd â mynedfa i'r plotiau a Chefn Isaf – *datgan pryder am y dŵr sy'n cronni ar yr hewl ochr isaf i Gefn-Isaf ac a fydd adeiladu yma yn ychwanegu at hyn*

W/29553 – Mr Bettison, Brynmair, Bancyffordd – cyntedd storm i'r blaenolwg – *dim barn*

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

W/29600 – Mrs Helen Maxwell, Pant y Bara, Velindre SA44 5XT – Adnewyddiad o ganiatad W/25144 – newid deunydd o ganiatad am gyfnod o 24 mis – *dim barn ond i'r ffaith bod pryder am ba mor hir gall hyn fynd ymlaen*

9. 02/14 MATERION ARIANNOL

Anfonebau

i. TRYWYDD [ni fi cyfieithydd yng nghyfarfod 24/02/14].....	£00.00
ii HIRIO NEUADD YR EGLWYS – cyfarfod 24/02/14	£7.00
[caniatad i dalu'r ddau uchod]	
iii.AELODAETH ULIC	£422.00
iv. DILWYN SMITH [Norton Internet Security]	£30.00
v. Lwfans Cadeirydd	£500.00
v. CSG – Costau Goleuo Llwybrau 01/04/13 – 31/03/14	£14,276.28
	<u>£ 2,855.25</u>
	<u>£17,131.53</u>

Arian yn y Banc ar 13/02/2014.....£26,976.06

Derbyniadau / Receipts

CSG [*Grant ar gyfer y wefan*].....£500.00

Cais an Gefnogaeth Ariannol

Gofal Mewn Galar

Victim Support

Catch Up Ltd

Gwasanaethau Cam-drin Domestig

Prism

R.A.B.I..

Nodwyd y ceisiadau uchod ond ni wnaed cyfraniad iddynt gan nad ydynt yn lleol.

10. 02/14 ADRODDIAD PWYLLGOR

Gwaith yn mynd yn ei flaen ar yr 'Audio Trail'

11. 02/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH

1. Tracio Cyflymdra Cerbydau – pedwar boc fod cael eu lleoli ym mhentref Felindre o fewn y pythefnos i dair wythnos nesaf.
2. Y Rhyfel Byd Cyntaf – yng nghylch gwneud rhywbeth i gofio'r achlysur y Clerc i gysylltu â'r ysgolion lleol i weld a oes ganddynt unrhyw gynlluniau ynglyn a'r peth.

12. 02/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- i. Cyng C Jones – Dwedodd fod y gwaith ger Hen Ffatri Dyffryn ar ddod i ben. Hefyd y byddai'r Cyngor yn clirio'r pridd ger yr heol sydd yn croesi o Temple.
- ii. Cyng J Wigley – Nododd bod dŵr yn dal i ddod allan o gaeau Llysnewydd ger pont Henllan
- iii. Cyng Sir K Howell – datblygiad Pontweli – nododd bod y datblygwr ond yn mynd i adeiladu pump tŷ mewn rhes.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Mawrth 31ain 2014, am 7.30y.h yn Ysgol Bryn Saron, Saron.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

